# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
**Swyddfa'r Cyngor**
**CAERNARFON**
**Gwynedd**
**LL55 1SH**

At: Aelodau'r Pwyllgor Safonau 16/11/22

Annwyl Aelod,

**PWYLLGOR SAFONAU – 21 TACHWEDD, 2022**
**ADRODDIAD HWYR**

Atodaf adroddiad hwyr yng nghyswllt yr eitem isod:-

**7 YMGYNGHORIAD Y PWYLLGOR SAFONAU GYDA DETHOLIAD O GLERCOD CYNGHORAU TREF A CHYMUNED PARTHED Y FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL** 2 - 18

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro

Yn gywir,

**Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth**

| Pwyllgor : | Y PWYLLGOR SAFONAU |
|---|---|
| Dyddiad : | 21 Tachwedd 2022 |
| Teitl : | Ymgynghoriad Pwyllgor Safonau gyda detholiad o Glercod Cynghorau Tref a Chymuned parthed y Fframwaith Safonau Moesegol |
| Awdur : | Swyddog Monitro |
| Pwrpas : | Cyflwyno i'r Pwyllgor am ei Sylwadau |

**Cefndir**

1. Penderfynodd y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd a'r Aelod Pwyllgor Cymunedol wneud darn o waith ddeall yn well anghenion clercod cynghorau cymuned o safbwynt cefnogaeth yng nghyd-destun y fframwaith foesegol a swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau yn benodol.

2. Croesawir y gwaith yma fel modd o'n cynorthwyo wrth ddarparu cefnogaeth ac yn fwy penodol deilwra hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i Aelodau, ganolbwyntio ar y materion hynny sydd fwyaf angen sylw.

3. Cyflwynir yr Adroddiad fel Atodiad 1, ynghyd â fy sylwadau ar yr adroddiad fel Atodiad 2.

**Argymhelliad**

4. Gofynnir i'r Pwyllgor am ei sylwadau ar yr Adroddiad

# Ymgynghoriad Pwyllgor Safonau gyda detholiad o glercod Cynghorau Tref a Chymuned parthed y Fframwaith Safonau Moesegol

## Adroddiad i'r Pwyllgor Safonau

**gan**

**Dr Einir Young (Cadeirydd)**

**a Richard Parry-Hughes (Aelod Pwyllgor Cymunedol)**

**Tachwedd 2022**

**Mynegai**


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | Mynegai | 2 |
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2. | Y cyd-destun | 3 |
| 3. | Crynodeb gweithredol | 4 |
| 4. | Y canlyniadau | 6 |
| 5. | Diweddglo | 10 |
| Atodiad 1. | Y cwestiynnau a holwyd | 11 |
| Atodiad 2. | Llythyr y Pwyllgor Safonau i'r Clercod | 12 |
| Atodiad 3. | Crynodeb o'r argymhellion | 13 |

## 1. CYFLWYNIAD

Mae Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd am ddeall yn well beth yw'r heriau sy'n wynebu Clercod Pwyllgorau Tref a Chymuned o ran cynnal safonau. Gofynwyd i Gadeirydd y Pwyllgor Safonau a Chynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned fod yn gyfrifol am y gwaith.

Pwrpas yr adroddiad hwn yn helpu'r Pwyllgor i ddeall mwy am sut mae'r gwahanol gynghorau yn gweithredu a beth yw anghenion y clercod o ran derbyn cefnogaeth. Bydd y wybodaeth yma'n arbennig o werthfawr wrth i'r Pwyllgor fynd ati i ystyried a oes angen llunio hyfforddiant penodol sy'n addas i gynghorau tref a chymuned ar y Côd Ymddygiad i Aelodau.

## 2. Y CYD-DESTUN

Yn ei gyfarfod ar 14eg Chwefror 2022 derbyniodd Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd adroddiad gan Grŵp Tasg a gorffen a fu'n trafod Adroddiad Penn a'r Fframwaith Safonau Foesegol.

Cafwyd trafodaeth am y Cynghorau Cymuned yn y Grŵp Tasg a nodwyd y canlynol:

- Ymddengys mai ymysg y cynghorau cymuned y mae'r heriau mwyaf o ra safonau yn bodoli.
- Mae rôl y clerc yn allweddol a dylid edrych ar y gefnogaeth a ellid ei gynnig iddynt.
- Ymddengys bod ystod eang o ran cyfrifoldebau, profiad a thâl ymysg clercod ac y byddai gwybodaeth am hynny'n ddefnyddiol.
- Byddai o fudd i'r Pwyllgor gael gwybodaeth fwy penodol ynglŷn â lle mae problemau yn codi fel y gellid targedu sylw lle mae ei angen.
- Dylid dadansoddi'r amgylchiadau oedd yn dueddol o arwain at broblemau ymddygiad o fewn cynghorau cymuned fel y gellir cynllunio hyfforddiant a chefnogaeth addas.

Er mwyn symud y drafodaeth yn ei blaen cadarnhaodd y Pwyllgor Safonau argymhelliad y Grŵp sef:

- "Bod y Cadeirydd a'r Aelod Pwyllgor Cymunedol yn gwneud darn o waith gyda chlercod cynghorau cymuned a thref i ddeall yn well beth yw eu hanghenion".

Adnabuwyd y pynciau penodol canlynol i'w hystyried

**Rôl y Clercod**

Mae canfyddiad fod rôl y clerc yn llywio Cyngor yn allweddol ond mae eu heffeithlonrwydd yn amrywio'n fawr. Oherwydd diffyg profiad neu ddiffyg hyder neu gyfuniad o'r ddau mae'n bosib nad ydynt bob amser yn gallu cynnig arweiniad digon cadarn i'r aelodau.

Un pwnc llosg sy'n achosi dryswch yn aml a lle mae'n rhaid i'r clerc ddangos arweiniad yw'r rheidrwydd i aelod 'ddatgan diddordeb' pan fo' hynny'n briodol.

**Hyfforddiant**

Mae Adroddiad Penn yn argymell fod hyfforddiant ar y Cod ymddygiad yn dod yn orfodol i holl aelodau prif gynghorau a chynghorau cymuned – ond mae cwestiwn am ymarferoldeb hynny gan fod 750 o aelodau ar draws Gwynedd. Rhaid cofio hefyd fod y cynghorwyr ar y ris isaf yma o

lywodraeth leol yn wirfoddolwyr heblaw am gostau os yn teithio allan o'u hardal. Maent hefyd yn aml yn gyff gwawd e.e. The Vicar of Dibley.

Gan hynny awgrymwn ei bod yn haws sicrhau fod y Clercod yn cael cefnogaeth i fod yn hollol hyddysg yn eu rôl fel eu bod yn gallu rheoli eu pwyllgorau yn effeithiol, gosod ffiniau pendant a lladd unrhyw gamymddwyn yn yr egin.

**Trefniadau amrywiol**

Mae cynghorau cymuned yn amrywio o ran maint ac o ran sut mae eu clercod yn cael eu penodi ac yn gweithredu. Er enghraifft mae Cyngor Tref y Bala, Llanuwchllyn a Llangywer yn rhannu Clerc ac mae Llanycil a Llandderfel aelodau eraill 'Pump Plwyf Penllyn' yn rhannu clerc arall. Mae cyd-weithio agos rhwng y pump cymuned.

Yn Nyffryn Ogwen mae tri cyngor Cymuned wedi cyfuno'u hadnoddau er mwyn cael gwasanaeth clercod gan Staff Partneriaeth Ogwen. Yn wreiddiol roedd un clerc ar gyfer y tri Chyngor ond erbyn hyn mae un clerc ar gyfer Cyngor Tref Bethesda a Llanllechid a Llandygai yn rhannu clerc.

**Rôl Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd mewn perthynas â'u Cynghorau Cymuned.** Mae sawl cynghorydd wedi eu heddol i'r ddwy swydd ac felly yn aelodau llawn o'u cynghorau cymuned. Mae gwahoddiad i bob Cynhorydd Sir i arsyllu yng nghyfarfodydd y Cyngorau Cymuned. Mae perthynas yr cynghorwyr sir a'r cynghorau cymuned yn amrywio a byddai'n ddefnyddiol cael eu barn hwy am sut mae'r cynghorau tref a chymuned yn gweithio.

**3. CRYNODEB GWEITHREDOL**

Holwyd clercod 13 o gynghorau Tref a Chymuned. Roedd ambell glerc yn gyfrifol am fwy nag un cyngor ac roedd gan dri chyngor berthynas lwyddiannus, arloesol gyda Phartneriaeth Ogwen i ddarparu gwasanaeth clercod. Menywod oedd y mwyafrif gyda dim ond dau yn ddynion.

Roedd cyflogau'r clercod yn amrywio o £37,000 ar gyfer swydd llawn amser mewn un Cyngor Tref i £600 (cyn treth) yn un o'r cynghorau llai. Nid oes swydd ddisgrifiad safonol ar gyfer clerc – mae pob cyngor yn creu swydd ddisgrifiad ar gyfer eu hangenion eu hunain.

Nid oedd cymhwyster proffesiynnol penodol i swydd Clerc gan neb cyn cael eu penodi ond roedd un clerc ar fin cymhwyso gyda Thystysgrif Gweinyddiaeth Cyngor Lleol Cymdeithas Cynghorau Lleol a Chlercod (Certificate in Local Council Administration. Society of Local Councils and Clerks). Nhw oedd y cyntaf i ddilyn y cwrs hwn drwy'r Gymraeg. Mae 3 arall yn y broses o ddilyn y cwrs.

Roedd dealltwriaeth o'r fframwaith yn amrywio o 'deall yn iawn' (5) 'deall i raddau/weddol hyderus' (5) gydag un yn cyfaddef nag oedd yn deall y fframwaith. O ystyried na chafodd neb hyfforddiant cyn ymgymryd â'r swydd mae'n syndod bod gymaint yn hyderus.

Roedd pawb yn hyderus eu bod yn gwybod pryd y dylid datgan diddordeb ond nid oedd pawb yn saff fod y cynghorwyr yn gwybod. Cyfrifoldeb cynghorwyr unigol yw datgan diddordeb ac fe nododd y rhan fwyaf mai cynnig arweiniad oedd unig rôl y clerc. Mae dryswch ynghlwm â hyn gyda rhai yn datgan diddordeb heb fod angen gwneud hynny ac eraill ddim yn deall y gwahaniaeth

rhwng datgan diddordeb a datgan buddiant sy'n rhagfarnu. Nodwyd gan sawl un fod angen hyfforddiant ar y cynghorwyr yn y cyd-destun hwn ond ei bod yn anodd eithriadol perswadio gwirfoddolwyr i ddilyn cwrs sy'n cael ei ystyried yn faich ychwanegol.

Yn sgîl cyhoeddusrwydd i achos Jackie Weaver y clerc ddaeth yn enwog oherwydd iddi ymyrryd mewn cyfarfod afreolus ar Zoom yn ystod y Pandemic mae ymwybyddiaeth o bŵer y clerc yn fwy hysbys i rai nag eraill. Nododd ambell glerc mai rôl y Cadeirydd yw rheoli cyfarfod ac roedd trafodaeth am yr angen i gadeiryddion gael hyfforddiant yn ogystal â'r clerc. Mae rhai cadeiryddion yn cymryd eu rôl yn fwy o ddifri nag eraill, gyda rhai yn gadael popeth i'r clerc ac yn dehongli eu rôl fel un o gadeirio cyfarfodydd yn unig, a dim byd arall.

Roedd pawb yn lled gyfforddus gyda 'herio aelod' ond nodwyd falle bod y gair 'herio' yn rhy gryf ac mai 'rhoi cyngor mewn ffordd awdurdodol' fyddai'r ffordd orau o ddisgrifio beth ddylai ddigwydd. Eto, lle'r Cadeirydd yw cymryd cyfrifoldeb dros ymddygiad anystywallt mewn cyfarfodydd.

Roedd pawb yn gwybod lle i fynd am gymorth gyda chlod mawr gan bawb i'r gefnogaeth sydd ar gael gan Unllais Cymru ar faterion cyffredinol yn ymwneud â'u cynghorau.

O ran gwneud bywyd clercod yn haws, cafwyd ystod o ymatebion. Roedd un clerc yn hollol hapus, un arall heb fod yn y rôl yn ddigon hir i allu gwneud sylw ac un arall yn awyddus i gael llai o waith. Cafwyd awgrymiadau amrywiol a defnyddiol gan y lleill ond yn benodol nodwyd y byddai'n ddefnyddiol petai'r cynghorwyr yn deall eu rôl yn well, bod mwy o ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau bod y cyhoedd yn deall y gwahaniaeth rhwng cyfrifoldeb y cyngor tref/cymuned a'r Cyngor Sir a bod y Cynghorwyr Sir yn cyd-weithio i bontio rhwng y ddau gyngor. Mae'r camddealltwriaeth sy'n codi yn gallu peri annifyrwch lefel is allai arwain at rywbeth mwy difrifol.

Roedd pawb ond un Clerc yn gweld gwerth mewn cael grŵp cefnogol a llawer ohonynt eisoes yn rhan o grŵpiau megis Unllais Cymru a'r Society of Clerks. Roedd eraill yn sôn am grŵp clercod Gwynedd oedd yn bodoli cyn COVID ac yn sôn am atgyfodi hwnnw – ond yn derbyn y byddai'n rhaid i hyn gael ei arwain a'i weinyddu ganddyn nhw. Roedd yr hen grŵp yn dibynnu ar glerc sydd bellach wedi rhoi'r gorau i'w swydd.

O ran y cyngor sydd ar gael i glercod roedd canmoliaeth unfrydol i Unllais Cymru a'r genadwri'n glir y dylai pob cyngor ymaelodi er mwyn cael budd o'r hyfforddiant sydd ar gael. Mae SLCC a'u gwefan yn ffynhonnell gwybodaeth ac mae tipyn o gyd-drafod yn mynd ymlaen gyda chlercod yn helpu ei gilydd. Mae'r berthynas gyda Chyngor Gwynedd yn fwy dyrus ac angen sylw. Mae'r rhai sydd wedi gorfod gofyn am help gyda'r enghreifftiau (weddol brin yn ein sampl ni) o gamymddwyn yn lled hapus ond yn ymwybodol o ddiffyg capasiti ar gyfer help ataliol, cyn i bethau fynd dros ben llestri.

Rhoddwyd cyfle i'r clercod ar y diwedd i gynnig sylwadau ar unrhyw bwnc llosg iddyn nhw. Un peth sy'n hollol glir yw nad yw materion yn ymwneud â safonau yn perthyn i flwch taclus ond yn gorgyffwrdd holl waith y cynghorau a'r clercod. Un syniad oedd diffinio'r berthynas rhwng Cyngor Tref/Cymuned a'r Cyngor Sir yn gliriach ac i wella'r cyfarthrebu rhwng y ddau lefel gwleidyddol. Mae angen hyfforddiant ar glercod ar faterion cyffredinol ond hefyd sut i ddelio gyda'r berthynas yma. Byddai'n ddefnyddiol, o bosib, cael cyfarfod unwaith y flwyddyn rhwng clercod a swyddogion sirol i rannnu gwybodaeth.

**4. Y CANLYNIADAU FESUL CWESTIWN GYDAG ARGYMHELLION**

**Oes gennych gymhwyster proffesiynol?** Nid oedd gan un o'r clercod a holwyd gymhwyster proffesiynnol cyn cael eu penodi. Mae ambell glerc yn brofiadol iawn yn sgîl eu gyrfa a ddim angen cymhwyster penodol ar gyfer bod yn glerc. Roedd un clerc a holwyd ar fin cymhwyso o'r cwrs Tystysgrif Gweinyddiaeth Awdurdod Lleol (CILCA) ac roedd tri arall yn dilyn y cwrs. Roedd un clerc wedi gwneud ymdrech ar liwt ei hun i hyfforddi.

**A gafoch hyfforddiant cyn dechrau'r swydd?** Roedd hyn yn amrywio – gyda'r mwyafrif yn disgrifio'r profiad fel 'in at the deep end'. Roedd rhai yn cael hyfforddiant a mentora ar ôl cael eu penodi ond ar hap oedd hyn yn digwydd.

Argymhelliad 1**:** Angen sicrhau fod pob clerc yn derbyn hyfforddiant/mentora gwaelodlin.

**Ydych chi yn hyderus eich bod yn deall y Fframwaith Safonau**? Roedd yr ymatebion yn amrywio o 'ydw' i 'na', gyda'r rhai oedd yn gwybod am ac yn deall y Fframwaith Safonau yn hyderus y byddent yn gallu cael mynediad at gymorth o wahanol ffynhonellau e.e. Unllais Cymru, clercod eraill, 'Society of Local Council Clerks'. Tra fod pob un Clerc yn dweud eu bod deall ac yn gwybod beth oedd y "Fframwaith Safonnau" dim ond un oedd wedi dilyn cwrs . Meddai – 'Fe fûm yn Hyfforddwr i Un Llais Cymru tan y cyfnod Covid ac rwy'n dilyn materion trwy fod yn aelod o SLCC'. Roedd y clerc yma hefyd wedi helpu clerc arall mewn cyngor cyfagos.

**Ydych chi'n hyderus eich bod yn gwybod pryd y dylai aelod ddatgan diddordeb**?

Roedd y rhan fwyaf yn hyderus eu bod yn gwybod gydag ambell un wedi dysgu o reidrwydd oherwydd eu bod yn delio gyda chwyn i'r Ombwdsman. Nodwyd bod yn rhaid dibynnu ar onestrwydd yr aelod i wneud datganiad ac nad oedd fawr allen nhw wneud i orfodi hyn. Nodwyd hefyd fod rhai o'r cynhgorwyr yn meddwl nad ydi buddiant yn effeithio ar eu gallu i fod yn niwtral neu, am ryw reswm, nad ydi'r rheolau'n berthnasol iddyn nhw. Dyma'r union bobl sy'n barod i daflu cynghorwyr eraill sy'n methu datgan buddiant dan y bws!

**Os oes aelod yn ymddwyn mewn ffordd yr ystyriwch chi ei fod yn annerbyniol ydych chi'n**

**a) gwybod beth i wneud i ddod â'r cyfarfod yn ôl ar y trywydd cywir?**
Prin oedd yr achosion o gamymddwyn yn y cynghorau gafodd eu cynnwys yn yr adroddiad hwn. I'r gwrthwyneb, roedd y rhan fwyaf o'r clercod yn adrodd fod 'pawb yn glên', pawb yn adnabod ei gilydd ers blynyddoedd – fyddai neb yn meddwl camymddwyn. Fodd bynnag yn y cynghorau lle mae unigolyn/ion sy'n ymddwyn yn annerbyniol mae hi'n fater arall ac mae'r clercod yn y cynghorau hynny yn cael amser caled.

Pwynt arall godwyd gan leiafrif oedd mai cyfrifoldeb y cadeirydd yw llywio'r cyfarfod, nid cyfrifoldeb y clerc – fel y nodwyd yn achos drwg-enwog Jackie Weaver. Mae safon Cadeiryddion yn amrywio – ambell un yn cymryd eu cyfrifoldeb o ddifri ac yn trafod yr agenda a'r gweithrediadau gyda'r clerc ymlaen llaw ond eraill yn troi fyny i gadeirio yn unig

Argymhelliad 2**:** Mae angen hyfforddiant/swydd ddisgrifiad mwy manwl ar gadeiryddion Cynghorau Tref a Chymuned

**b) a ydych yn hyderus i herio aelod?**

Roedd hyn yn amrywio gyda phrofiad/oedran y clerc a phroffil oedran y Cyngor dan sylw. Tri wnaeth ateb yn foddhaol ac roedden nhw naill wedi derbyn hyfforddiant neu yn brofiadol o faes arall – e.e. 'Byddwn yn osgoi 'herio' a chreu sefyllfa a allai arwain at gythrwfl , ond byddwn yn hyderus o'm gallu i roi cyngor ac arweiniad mewn modd awdurdodol'.

Argymhelliad 3: Unwaith eto, nodir mai cyfrifoldeb y Cadeirydd yw gwneud yr herio, cynghori'r Cadeirydd yw rôl y clerc. Dylid sicrhau fod y Cadeirydd a'r clerc yn deall hyn.

**c) A ydych yn gwybod lle i fynd am gymorth os ydi pethau'n mynd o'i le?**

Roedd y clercod holwyd yn gwybod lle i fynd am gymorth (Unllais Cymru, SLCC sef Cymdeithas clercod tref a chymuned a'r swyddog montiro) ond nodir nad oedd y cyngor hwnnw'n effeithiol bob amser, yn yr ystyr nad oes mecanwaith ar gael i ddatrys problemau lleol yn hwylus heb gwyno'n swyddogol. Ac mae cwyno'n swyddogol yn broses feichus a hirfaith – fel gosod rhywun ar y stepan plentyn drwg fisoedd ar ôl y digwyddiad yn hytrach na delio â'r drosedd yn syth bin.

Argymhelliad 4: Mae angen adnabod y cynghorau sy'n cael trafferthion a chanolbwyntio ymdrechion i ddatrys y camymddwyn yno cyn iddo fynd yn rhy ddifrifol. Roedd canfyddiad mae llipa oedd yr help oedd ar gael – roedd rhaid cael cwyn ffurfiol er enghraifft cyn y gellid gwneud dim am y peth - yn hytrach na gallu galw am ymyrraeth sydyn, effeithiol.

**d) hyfforddiant i aelodau**

Y farn gyffredinol yw ei bod yn anodd iawn perswadio Cynghorwyr i fynd ar gwrs i ddeall y Fframwaith Safonau'n well, naill am nad ydyn nhw'n meddwl fod angen hyfforddiant arnyn nhw neu fod canfyddiad nad oes amser ganddyn nhw fynychu. Gan eu bod yn wirfoddolwyr i bob pwrpas (rhan fwyaf o gynghorwyr y cyngorhau llai ddim yn hawlio'r £150 y flwyddyn) mae'n amhosib eu gorfodi i fynd ar gwrs. Yn achos un cyngor mae'r clerc yn anfon ebost allan bob mis gyda gwybodaeth am fodiwlau perthnasol sy'n cael eu cynnig gan Unllais Cymru – modiwlau am y Côd ymddygiad, sesiynnau cynefino i gynghorwyr newydd, trefn llywodraeth leol ac ariannol. Cynhelir y rhain yn fisol ar-lein. Nid oes UN cynghorydd wedi manteisio ar y cynnig. Gan fod y cyngor arbennig hwn yn perthyn i Unllais Cymru dim ond £35/cynghorydd yw'r gost ac mae praesept y cyngor yn cynnwys hyfforddiant i aelodau.

Yr heriau cyffredinol yw parodrwydd i fynd a chost. O ran hyfforddiant ar y côd ymddygiad mae na un yn ystod y dydd ac un arall gyda'r nos am awr a hanner.

I gynghorau sydd heb gyllid hyfforddiant mae bwrsariaethau ar gael gan Lywodraeth Cymru ar gyfer dau le am ddim ar bob modiwl am y flwyddyn. Y modiwl ar y côd ymddygiad yw un o'r modiwlau sy'n elwa o'r cynnig yma, cânt eu cynnal unwaith y mis.

Mae yna fantais, yn ôl y clercod sy'n manteisio ar gyfleon fel hyn o fynd ar y cyrsiau gan fod pawb o Gymru'n mynychu ac mae'n gyfle i gwrdd a chlywed profiadau pobleraill ac mae hyn yn bwysig.

Argymhelliad 5**:** Mae angen adnabod yn union beth yw'r ddarpariaeth sydd ar gael gan Unllais Cymru a sicrhau bod pob Cyngor Cymuned yn ymwybodol o hyn. Prin bod angen i Uned Gyfreithiol Cyngor Gwynedd ddarparu unrhyw hyfforddiant penodol ond byddai'n ddefnyddiol petai'r Swyddog Monitro a'i dîm yn ymwybodol o ba hyfforddiant sydd ar gael a gofyn i'r clercod am ddiweddariad ar faint o'u cynghorwyr sydd wedi mynychu cyrsiau.

.

**Sylwer** – mae lwfansau cynghorwyr tref a chymuned wedi eu pennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ac mae'r cynghorau wedi eu haenu o ran maint gyda'u lwfansau yn dibynu ar lefel y Cyngor, y praesept a'r nifer o drigolion sy'n byw yna. Gall y Cynghorau Tref yn yr haen uchaf gynnig tâl am bob cyfarfod yn ôl disgresiwn eu hunain (gyda thâl y chwanegol i'r Cadeirydd)

**Beth yn eich barn chi fyddai'n gwneud eich bywyd chi fel clerc yn haws?**

Roedd teimlad for y Cynghorau Cymuned yn ynysig a ddim yn gweld fod safonau yn bwnc Cymru gyfan. Roedd rhai clercod yn adrodd fod rhai cynghorwyr yn ystyried safonau yn fater lleol a'u bod nhw yn rhydd i ddehongli'r rheolau yn eu ffordd eu hunain.

<u>Argymhelliad 6</u>: Dylid ystyried cynnal seminar bob rhyw ddwy flynedd, neu hanner ffordd drwy'r tymor er mwyn uwcholeuo fod rôl Cynghorydd Cymuned yn un gyfrifol a phwysig a bod y Côd ymddygiad yn rhan mawr o hynny. Roedd y clercod yn gweld fod y Côd ymddygiad yn sylfaen i bopeth ma nhw'n wneud a'i bod yn bwysig tanlinellu fod pawb yng Nghymru yn dilyn yr un côd nid dim ond nhw.

**Pa fath o gefnogaeth fyddai o fudd i chi yng nghyd-destun ymddygiad aelodau ac yn gyffredinol**?

Daeth y berthynas rhwng y Cyngor Cymuned â'r Cynghorydd Sir i'r amlwg yn yr atebion yma. Nodwyd fod Cynghorydd Sir cefnogol yn gallu bod yn fanteisiol iawn ond roedd enghraifft hefyd o Gynghorydd Sir oedd yn achosi trafferth (ac mae enghreifftiau wedi bod yn y gorffennol hefyd). Pan fo'r berthynas yn gweithio'n dda mae'r Cyngor Cymuned yn cael briff gan y Cynghorydd am beth sy'n digwydd ar lefel sirol ac yn gallu dilyn fyny ar faterion sy'n gyfrifoldeb i'r Sir. Ymddengys nad yw pob Aelod Etholedig yn derbyn y gwahoddiad i eistedd mewn yng nghyfarfodydd y Cyngor Tref/Cymuned.

Roedd un o'r clercod sydd wedi cael trafferth yn gwerthfawrogi amser y Swyddog Monitro fel person niwtral oedd yn hyddysg yn ei bwnc ac wedi gweld achosion tebyg dros y blynyddoedd. Roedd y cyngor yn ddefnyddiol ond roedd y clerc hefyd yn ymwybodol fod capasiti y Swyddog a'i dîm yn brin.

Roedd rhai o'r ymatebion yn dangos peth rhwystredigaeth gyda Cyngor Gwynedd. Dyma ddyfyniad o un ymateb i gwestiwn "Nid wyf yn sicr beth yw'r "gwasanaeth a dderbynnir" yr ydych yn cyfeirio ato. Os mai gwasnaeth gan Gyngor Gwynedd sydd gennych mewn golwg, mae arnaf ofn y byddwn yn gorfod dweud "Pa wasanaeth sydd ar gael i Glercod gan Gwynedd?" e.e. Adeg Etholiadau mis Mai fe anfonais e-byst ac fe geisiais gael ateb dros y ffôn i gwestiynau ynglŷn a phwyntiau pwysig am drefniadau – ond ni chefais ateb digonol (neu dim ateb o gwbl). Yn ffodus, roeddwn yn gallu chwilio'r we a gweld sut oedd Cynghorau eraill yng Nghymru yn gweithredu." Bu cryn ddyrswch mewn amal gyngor yn ystod yr etholiadau Mis Mai oherwydd newidiadau i'r drefn enwebu yn bennaf . Nododd un Clerc iddo ddanfon allan "Canllaw y Cynghorydd da' a Chanllawiau'r Ombwdsman' i bob un o'r Cynghorwyr ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol ym mis Mai eleni.
Ein tyb yw fod hyn wedi ei wneud oherwydd cryn wrthdaro rhwng aelodau ac hefyd aelod o'r Cyngor Sir.

Argymhelliad 7: Hyfforddiant/cyfarwyddyd i'r Aelodau Etholedig ar eu rôl o fewn eu cynghorau cymuned.

Argymhelliad 8: Sicrhau cymorth mewn da bryd cyn i bethau fynd mor bell â chwyn swyddogol yn y lle cyntaf a wedyn sicrhau bod capasiti i gefnogi.

**A fyddech yn gweld gwerth mewn cael grŵp sy'n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn i glercod allu trafod pynciau llosg ymysg ei gilydd**?

Roedd hyn yn syniad poblogaidd. Mae trafodaeth eisoes yn digwydd ymysg ei gilydd am syniadau megis y byddai cael grŵp FB i glercod Gwynedd yn handi. Ond, mae ymwybyddiaeth hefyd bod angen i'r clercod gymryd meddiant o hwn eu hunain gan nad oes cyllid na chapasiti ar gael i ddod a grŵp at ei gilydd yn fwy ffurfiol.

Mae sawl un yn rhan o grŵp clercod UK 'Society of Local Council Clerks'– grŵp anffurfiol sy'n fforwm ar gyfer codi unrhyw bwnc – mae'r Côd ymddygiad yn bwnc sy'n codi'n aml. Roedd consensws fod clywed barn clercod eraill yn ddefnyddiol tu hwnt. Mae rheolau ymaelodi'r grŵp yn nodi na ddylid trafod y pynciau tu allan i'r grŵp ac mae'n rhaid profi eich bod yn glerc cyn ymuno. Pan ddaw eich swydd fel clerc i ben, rhaid ymadael â'r grŵp. Nid oes angen bod yn aelod o Unllais na dim byd arall i fod yn aelod o'r grŵp yma. Mae'n ddefnyddiol iawn i glercod cynghorau bach a disgrifiodd un clerc y grŵp fel 'lifeline' iddyn nhw. Byddai cael grŵp tebyg yng Ngwynedd yn gwneud mwy o synnwyr o bosib gan fod y ddeddf yn wahanol yng Nghymru – a byddai'n gyfle i rannu beth sy'n digwydd yma a phrofiadau Gwynedd etc.

**Pa ffynhonellau o gyngor a chefnogaeth sydd ar gael i chi fel clerc ac fel cyngor?**

Unllais Cymru a'r Society of Local Council Clerks oedd y ddau brif ffynhonnell gydag Unllais Cymru yn bwynt dechrau. Dydi Unllais Cymru ddim yn ateb y ffôn yn ôl y sôn ond maent yn ateb ebyst ac roedd rhan fwyaf yn hapus gyda'r cymorth. Y farn oedd ei bod yn haws cael ateb gan Unllais Cymru ar faterion cyffredinol na chan y Sir – yn bennaf oherwydd nad oes un cyswllt yn y sir i'r clerc. Nid oedd y rhan fwyaf wedi gorfod holi am gymorth o ran safonau. Roedd lefel y boddhâd yn dibynnu ar pa mor ddifrifol oedd y gŵyn.

Argymhelliad 9**:** Cymell pob cyngor i ymuno ag Unllais Cymru

Argymhelliad 10: Y Cyngor Sir yn gyffredinol i ystyried y berthynas gyda'r Cynghorau Cymuned a sicrhau un pwynt cyswllt ar gyfer y clercod – a sicrhau bod y Swyddog Monitro yn creu cysylltiad gweithredol gyda'r unigolion yma.

**Mae crynodeb o'r argymhellion i'w gweld yn Atodiad 3**

**5. DIWEDDGLO**

Ar y cyfan mae lle i ddathlu bod safonau yn cael eu cynnal yn dda yn y Cynghorau Tref a Chymuned ond fel yr adnabuwyd gan y Pwllgor Safonau mae yna ambell gyngor/ardal yn achos pryder. Rhaid adnabod rhain a chanolbwyntio ymdrechion i gefnogi'r clercod yn y cynghorau problemus yma.

Mae ystod yr amrywiaeth rhwng y cynghorau yn heriol – rhai yn fawr ac eraill yn eithriadol o fach. Nid oes un datrysiad ar gael sy'n mynd i fod yn addas i bob un. Bydd angen bod yn ddychmygus a chydweithio gyda'r clercod a'r cadeiryddion i ddod o hyd i ffyrdd o hyrwyddo safonau a sicrhau fod problemau'n cael sylw cyn iddyn nhw droi'n broblem anferth. Ni fydd hyn yn hawdd oherwydd y trothwy uchel o ran rhyddid i ddatban barn gwleidyddol a'r disgwyliad fod yn rhaid i wleidyddion osgoi bod yn rhy groen-denau.

Hyrwyddo'r 'rheol aur' yw'r nôd – gwnewch i eraill fel y carech iddynt hwy wneud i chwi. Mewn geiriau eraill hyrwyddo ethos o barch at ein gilydd..

**Atodiad 1: Cwestiynnau  a holwyd**

Am resymau gwarchod data dim ond atebion cwestiynnau 5 – 13 sydd yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad.

1. Enw:
2. Cyngor/cynghorau Cymuned:
3. Cyflog:
4. Pryd gawsoch eich penodi:
5. Oes gennych gymhwyster proffesiynol?
6. A gafoch hyfforddiant cyn dechrau'r swydd?
7. Ydych chi yn hyderus eich bod yn deall y Fframwaith Safonau?
8. Ydych chi'n hyderus eich bod yn gwybod pryd y dylai aelod ddatgan diddordeb?
9. Os oes aelod yn ymddwyn mewn ffordd yr ystyriwch chi ei fod yn annerbyniol ydych chi'n

   a) gwybod beth i wneud i ddod â'r cyfarfod yn ôl ar y trywydd cywir

   b) hyderus i herio aelod

   c) gwybod lle i fynd am gymorth os ydi pethau'n mynd o'i le?.
10. Beth yn eich barn chi fyddai'n gwneud eich bywyd chi fel clerc yn haws?
11. Pa fath o gefnogaeth fyddai o fudd i chi yng nghyd-destun ymddygiad aelodau ac yn gyffredinol ?
12. A fyddech yn gweld gwerth mewn cael grŵp sy'n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn i glercod allu trafod pynciau llosg ymysg ei gilydd?
13. Pa ffynhonellau o gyngor a chefnogaeth sydd ar gael i chi fel clerc ac fel cyngor?   Beth yw eich barn am safon y gwasnaeth a dderbynnir? Ydych chi wedi cael profiad o gysylltu ag Unllais Cymru – os do gafoch chi ateb digonol?.

## Atodiad 2. Llythyr y Pwyllgor Safonau i'r Clercod

Annwyl Glerc

**Ymgynghoriad Pwyllgor Safonau gyda detholiad o Glercod Cynghorau Tref a Chymuned**

Mae Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd am ddeall yn well beth yw'r heriau sy'n wynebu Clercod Pwyllgorau Tref a Chymuned o ran cynnal safonau. Bydd y gwaith hwn yn helpu'r Pwyllgor i ddeall mwy am sut mae'r gwahanol gynghorau yn gweithredu a beth yw anghenion y clercod o ran derbyn cefnogaeth. Bydd y wybodaeh yma'n arbennig o werthfawr wrth i ni fynd ati i lunio hyfforddiant addas i gynghorau tref a chymuned ar y Côd Ymddygiad i Aelodau.

Cam cyntaf ein gwaith oedd penderfynu'n fras beth yw'r cwestiynau yr hoffem i chi ateb. Fel ail gam rydym wedi dethol trawsdoriad o glercod sy'n cynrychioli gwahanol fathau o gynghorau cymuned i gael sgyrsiau wedi eu lled-strwythuro gyda Cadeirydd y Pwyllgor Safonau a/neu Cynrychiolydd y Cynghorau Tref a Chymuned ar y Pwyllgor Safonau . Rydych chi yn un o'r detholion.

Gan ddiolch i chi o flaen llaw am eich cydweithrediad. Os bydd gennych unrhyw gwestiwn am y gwaith croeso i chi gysylltu gydag Sion Huws Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau neu e-bostiwch sionhuws@gwynedd.llyw.cymru

Yn gywir

Sion Huws

Sut byddwn yn defnyddio eich gwybodaeth

Mae'r Cyngor yn casglu'r wybodaeth yma i ddibenion ymchwil ynglŷn â'r heriau sy'n wynebu y Cynghorau Tref a Chymuned parthed safonau.

Caiff eich gwybodaeth ei gadw yn hollol gyfrinachol. Bydd adroddiad ar y canlyniadau (heb enwi unigolion na chynghorau unigol ) yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Safonau. Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth personol gydag unrhyw sefydliad arall. I gael gwybod mwy am eich hawliau a manylion cyswllt Swyddog Diogelu Data'r Cyngor, ewch i'r wefan.

https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Diogelu-Data-a-Rhyddid-Gwybodaeth/Diogelu-data-.aspx

Dear Clerk

**Standards Committee Consultation with a selection of Town and Community Council Clerks**

Gwynedd Council's Standards Committee is seeking to better understand the challenges facing the Town and Community Council Clerks. The work will enable the Committee to gain an insight into how the different councils operate and the kind of support required by the clerks. This information will be particularly useful as we develop appropriate training on the Code of Conduct for the Community and Town Councils

The first step of our work was to determine the scope of the questions we wish to be answered. The second step was to select a cross-section of clerks representing diverse Community Councils to participate in semi-structured interviews with the Chair of the Standards Committee and/or the Standards Committee representative of the Town and Community Council. Your are one of the selected interviewees.

Thanking you in advance for your cooperation. If you have any questions about the proposed work please contact Sion Huws, Propriety and Elections Manager or e-mail sionhuws@gwynedd.llyw.cymru

Yours faithfully

Sion HuwsHow we will use your information

The Council is collecting this information for the purpose of understanding the challenges associated with Standards in the Town and Community Councils.

Your information will be kept completely confidential. A report of our findings (without naming individuals or indivdual coucils) will be presented to the Standards Committee We will not share your personal information with any other organisation. To find out more about your rights and the contact details of the Council's Data Protection Officer, visit the website

https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Data-Protection-and-Freedom-of-Information/Data-protection-.aspx

**Atodiad 3: Crynodeb o'r argymhellion**

1. Angen sicrhau fod pob clerc yn derbyn hyfforddiant/mentora gwaelodlin.
2. Mae angen hyfforddiant/swydd ddisgrifiad mwy manwl ar gadeiryddion Cynghorau Tref a Chymuned
3. Nodir mai cyfrifoldeb y Cadeirydd yw gwneud yr herio, cynghori'r Cadeirydd yw rôl y clerc. Dylid sicrhau fod y Cadeirydd a'r clerc yn deall hyn.
4. Mae angen adnabod y cynghorau sy'n cael trafferthion a chanolbwyntio ymdrechion i ddatrys y camymddwyn yno cyn iddo fynd yn rhy ddifrifol. Roedd canfyddiad mae llipa oedd yr help oedd ar gael – roedd rhaid cael cwyn ffurfiol er enghraifft cyn y gellid gwneud dim am y peth - yn hytrach na gallu galw am ymyrraeth sydyn, effeithiol.
5. Mae angen adnabod yn union beth yw'r ddarpariaeth sydd ar gael gan Unllais Cymru a sicrhau bod pob Cyngor Cymuned yn ymwybodol o hyn. Prin bod angen i Uned Gyfreithiol Cyngor Gwynedd ddarparu unrhyw hyfforddiant penodol ond byddai'n ddefnyddiol petai'r Swyddog Monitro a'i dîm yn ymwybodol o ba hyfforddiant sydd ar gael a gofyn i'r clercod am ddiweddariad ar faint o'u cynghorwyr sydd wedi mynychu cyrsiau.
6. Dylid ystyried cynnal seminar bob rhyw ddwy flynedd, neu hanner ffordd drwy'r tymor er mwyn uwcholeuo fod rôl Cynghorydd Cymuned yn un gyfrifol a phwysig a bod y Côd ymddygiad yn rhan mawr o hynny. Roedd y clercod yn gweld fod y Côd ymddygiad yn sylfaen i bopeth ma nhw'n wneud a'i bod yn bwysig tanlinellu fod pawb yng Nghymru yn dilyn yr un côd nid dim ond nhw.
7. Hyfforddiant/cyfarwyddyd i'r Aelodau Etholedig ar eu rôl o fewn eu cynghorau cymuned.
8. Sicrhau cymorth sydyn cyn i bethau fynd mor bell â chwyn swyddogol yn y lle cyntaf a wedyn sicrhau bod capasiti i gefnogi.
9. Cymell pob cyngor i ymuno ag Unllais Cymru

Y Cyngor Sir yn gyffredinol i ystyried y berthynas gyda'r Cynghorau Cymuned a sicrhau un pwynt cyswllt ar gyfer y clercod – a sicrhau bod y Swyddog Monitro yn creu cysylltiad gweithredol gyda'r unigolion yma.

**Atodiad 2 - Sylwadau gan y Swyddog Monitro**

Rwyf wedi cloriannau casgliadau'r adroddiad yn erbyn swyddogaethau statudol y pwyllgor mewn perthynas â chynghorau cymuned o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 sef:

Swyddogaethau cyffredinol

(a) hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod, a

( b ) cynorthwyo aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod i gadw at god ymddygiad yr awdurdod.

Swyddogaethau penodol

(a) cynghori'r awdurdod ar fabwysiadu neu adolygu cod ymddygiad,

( b ) monitro gweithrediad cod ymddygiad yr awdurdod, a

(c) cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ac aelodau cyfetholedig o'r awdurdod ar faterion sy'n ymwneud â chod ymddygiad yr awdurdod

**Pwysigrwydd Rôl y Clerc a'r Cadeirydd**

(Argymhellion 1,2,3 & 7)

Y Clerc gan amlaf yw'r unig swyddog cyflogedig ac mae ei swyddogaethau'n ymestyn ar draws holl weithgareddau'r cyngor. Mae clerc effeithiol ynghyd â Chadeirydd all gynnig cefnogaeth yn ganolog i sicrhau llywodraethu cadarn. Ni ellir anwybyddu'r cyd-destun ehangach wrth edrych ar ymddygiad aelodau, a gall nifer o ffactorau gyfuno ac arwain at ddrwg deimlad o fewn y cyngor sydd yn ei dro yn arwain at gyhuddiadau o dorri'r cod ymddygiad. Yn ein profiad ni mai gwendidau llywodraethiant yn aml yn elfen sydd, hyd yn oed os nad yw'n creu'r sefyllfa, yna'n medru ei gwneud yn fwy dyrys ac anodd ei datrys.

Fel canlyniad, roeddem wedi cynnwys elfennau sydd yn ymwneud a llywodraethu yn y sesiynau hyfforddi diwethaf a gynhaliwyd gyda chynghorau cymuned. Roedd hyn hefyd yn un o'r rhesymau pam y gwahoddwyd clercod a chadeiryddion ac is-gadeiryddion yn benodol.

Nodir yr anhawster y caiff clercod i gael rhai aelodau i ddeall perthnasedd a goblygiadau darpariaethau'r Cod ar fuddiannau personol ac mae hwn felly n un o'r materion penodol y gellid ei gyfarch wrth gyflwyno'r hyfforddiant.

Y cod serch hynny yw'r canolbwynt ,a byddai hyfforddiant ar gyfrifoldebau y tu hwnt i gylch gwaith y Pwyllgor yn fwy priodol i gyrff eraill megis Un Llais Cymru, Llywodraeth Cymru a'r WLGA .

Mae'n bleser nodi serch hynny mai prin yw achosion o gamymddwyn yn ôl y clercod, a bod y rhan fwyaf yn adrodd fod y berthynas rhwng aelodau yn un cytûn. Mae'n hawdd cael camargraff o natur a maint y broblem gan fod achosion unigol yn aml yn gofyn am amser ag

adnoddau sylweddol i'w datrys, a'n bod yn dueddol o ddod i gyswllt gyda sefyllfaoedd eithriadol lle mae problemau'n bodoli.

**Datrys Lleol Cynnar**

(4&8)

Nid oes amheuaeth y byddai trefn i geisio datrys problemau cyn iddynt droi'n ddifrifol a gwneud hynny yn gyflym ac yn lleol yn fuddiol iawn. Mae hyn wrth gwrs yn un o'r argymhellion sydd yn Adroddiad Penn. Fodd bynnag , mae'n amlwg nad oes gan Swyddogion Monitro ar draws Cymru, y staff na'r adnoddau i ddarparu'r math yma o gefnogaeth. Mae'r neges yma wedi ei gyfleu yn glir i Swyddogion Llywodraeth Cymru ac wedi ei adlewyrchu yn sylwadau'r Pwyllgor Safonau ar adroddiad Penn.

Nid yw'n glir beth a olygir drwy ddweud bod *"canfyddiad mae llipa oedd yr help oedd ar gael"* yn argymhelliad 4. Ai cyfeiriad sydd yma at y ffaith nad oes dulliau o ymdrin â chwynion heblaw am eu cyflwyno yn ffurfiol i'r Ombwdsmon neu ansawdd y gefnogaeth a ddarparwyd ? Fel y nodir uchod, nid yw'r Swyddog Monitro na'i staff mewn sefyllfa i fedru ymchwilio i gwynion. Os yw'n cyfeirio at ddiffyg yn y cyngor a'r cymorth sydd wedi ei gynnig ( gweler isod) yna mae angen esbonio ymhellach at bwy mae'r feirniadaeth yn cael ei anelu? Un Llais, yr Ombwdsman neu Gyngor Gwynedd.

**Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad**

(5, 6)

Mae cael darlun o'r hyn sydd ar gael i aelodau cynghorau cymuned ar y cod ymddygiad gan gyrff eraill fel Un Llais Cymru yn hanfodol o ystyried mai swyddogaeth a chyfrifoldeb statudol y Pwyllgor Safonau yw darparu neu drefnu darparu hyfforddiant o'r fath.

Mae profiad y clercod o amharodrwydd rhai aelodau i fynychu cyrsiau hyfforddiant yn adlewyrchu ein profiad o gynnal dros y blynyddoedd. Y bwriad yw edrych ar ddulliau newydd rhithiol o gyflwyno hyfforddiant sy'n ei gwneud yn haws i aelodau fynychu. Mae hyn eto yn fater sydd dan ystyriaeth o ganlyniad i adroddiad Penn gydag adnoddau unwaith eto yn her.

**Cyswllt rhwng y cyngor si'r a'r cynghorau cymuned**

(10)

Nodir bod ansicrwydd a diffyg dealltwriaeth ynglŷn â chydberthynas rhwng y cyngor sir a'r cynghorau cymuned. Nid yw'n hollol glir os yw hyn yn uniongyrchol berthnasol i'r Cod Ymddygiad neu'n hytrach yn farn fwy cyffredinol.

Yn y bôn mae'r cynghorau cymuned yn gyrff sydd yn hollol annibynnol o'r cyngor sir. Mae hyn yn bwynt sylfaenol ynglŷn â'u llywodraethu. Tra ein bod yn cydnabod bod rôl y clerc yn medru bod yn un anodd ac unig , rhaid cofio nad cyfrifoldeb y cyngor sir yw darparu

cefnogaeth i glercod, heblaw mewn perthynas â swyddogaethau lle mae darpariaeth statudol benodol yn darparu hynny. Fodd bynnag, ac er gwaethaf hyn, darperir cyngor a chefnogaeth barod i glercod sydd am gael gair o gyngor neu gefnogaeth anffurfiol gyfreithiol beth bynnag y maes ac yn rheolaidd. Mae'r adborth yn awgrymu fod gwerthfawrogiad i hyn.

O safbwynt sefyllfa aelodau o'r cyngor cymuned sydd hefyd yn gynghorwyr, nid yw'n glir os oes awgrym bod aelodau yn defnyddio'u statws fel cynghorwyr sir mewn modd amhriodol neu eu bod yn cael trafferth gwahaniaethu rhwng y ddwy rôl? Os nad ydynt yn aelod yna maent yn bresennol ar wahoddiad y cyngor cymuned yn unig heb fwy o hawliau sylfaenol nag unrhyw aelod o'r cyhoedd o ran cymryd rhan. Y confensiwn serch hynny yw eu bod yn cael cyfrannu at y drafodaeth gan ddod a gwybodaeth a phersbectif fel aelod o'r cyngor sir. Ond mater i'r Cyngor unigol fyddai trefnu hyn gyda'r aelod lleol nid y Cyngor Sir. Gall aelodau sirol gyfrannu gwybodaeth a phersbectif gwerthfawr i drafodaethau'r cyngor cymuned ond os oes unrhyw oblygiadau o safbwynt y cod ymddygiad yna gellid ei gyfarch mewn hyfforddiant

Mae trefniadau cyswllt mewn lle rhwng adrannau'r Cyngor Sir a'r cynghorau mewn perthynas â meysydd penodol, gan gynnwys y fframwaith foesegol fel y nodir uchod. Os oes amheuaeth yna gall canolfan gyswllt y Cyngor, Glaw Gwynedd, roi clerc mewn cyswllt â'r adran berthnasol. Byddai gan gyflogi swyddog penodol i weithio fel pwynt cyswllt cyffredinol oblygiadau o safbwynt adnoddau ac yn fater corfforaethol i'r Cyngor